# Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio (2 swydd)

## Cytundeb Parhaol



www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

CYNGOR GWYNEDD

# Hysbyseb Swydd

## Swydd: Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio (2 swydd) (Cytundeb parhaol)
## Cyflog: £44,075 - £46,142 (yn ogystal â chyfraniad pensiwn Llywodraeth Leol)

Diolch am ddangos diddordeb mewn gwneud cais am y swydd bwysig yma. Mae'n cynnig cyfle i unigolyn proffesiynol, brwdfrydig ac ymroddedig fel Arweinydd Tîm yng Ngwasanaeth Polisi Cynllunio, Tirwedd a Natur Cyngor Gwynedd.

Rydym yn awyddus i benodi rhywun fydd yn gallu arwain ar agweddau o'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd. Byddwch yn sicrhau Cynllun sydd yn cyd-fynd â'r gofynion statudol ac yn cyfarch anghenion cymunedau'r ardal yn gymdeithasol, economaidd ac yn amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn arwain tîm i sicrhau fod dyletswyddau'r Gwasanaeth yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Mae holl fanylion y swydd i'w gweld yn y ddogfen yma, dylech gyflwyno eich cais ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

Os hoffech drafod y swydd yn anffurfiol, cysylltwch gyda Rebeca Jones, Rheolwr y Gwasanaeth (RebecaJones@gwynedd.llyw.cymru, 01286 679890). Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.



# Gweithio i’r Cyngor

Diolch am ddangos diddordeb mewn gwneud cais am y swydd yma gyda Chyngor Gwynedd.

Mae'r Cyngor yn cynnig amodau gweithio apelgar. Fel aelod o staff y Cyngor, byddai cyfle i fanteisio ar amrywiaeth o hyfforddiant a chyrsiau perthnasol fel rhan o'n hymrwymiad i'ch datblygiad proffesiynol.

Mae sicrhau cydbwysedd bywyd a gwaith yn bwysig iawn, ac mae Cyngor Gwynedd yn cynnig nifer o gyfleoedd gweithio'n hyblyg er mwyn helpu staff i daro cydbwysedd iach rhwng bywyd cartref a gwaith.

Byddech hefyd yn elwa ar nifer o fuddiannau pellach sydd ar gael o weithio i Gyngor Gwynedd.

Mae rhagor o fanylion am y buddion o weithio i Gyngor Gwynedd i'w gweld ar **www.gwynedd.llyw.cymru/gweithioiwynedd**



# Swydd Ddisgrifiad

## PWRPAS Y SWYDD

- Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Arwain y gwaith o ddarparu gwasanaeth polisi cynllunio a dyletswyddau cysylltiedig ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Cyngor Gwynedd.



## CYFRIFOLDEB AM ADNODDAU (e.e. staff, cyllid, offer)

- Arwain y Tîm i sicrhau fod dyletswyddau sydd yn ymwneud a polisi cynllunio yn cael eu gweithredu'n effeithiol ynghyd â chyfrannu tuag at agweddau cynllunio mwynau a gwastraff a rheolaeth o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn (AHNE).
- Cyfrifoldeb am adnoddau ariannol y Tîm.
- Cyfrifoldeb am offer cyfrifiadurol personol.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

- Arwain ar y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd, i sicrhau Cynllun sydd yn cyd-fynd a'r gofynion statudol ac yn cyfarch anghenion cymunedau'r ardal yn gymdeithasol, economaidd ac yn amgylcheddol ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn cynnwys arwain, cydlynu, paratoi a chyflwyno:
  - sail tystiolaeth ar gyfer papurau testun
  - dogfennau a chyflwyniadau ar gyfer yr ymgynghoriadau cyhoeddus statudol yn ogystal a sesiynau briffio ar gyfer Aelodau Etholedig
  - tystiolaeth ar gyfer yr archwiliad cyhoeddus
- Arwain a gweithredu ar y trefniadau ar gyfer cydweithio gyda Thîm Cyfathrebu'r Cyngor i sicrhau fod Cynllun Cyfathrebu effeithiol mewn lle ar gyfer y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a gwaith y Gwasanaeth
- Arwain a chydlynu a chysoni lle'n briodol y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol gyda strategaethau a dogfennau polisi eraill sydd wedi, neu yn cael eu paratoi gan y Cyngor, gan awdurdodau cyfagos, ar lefel rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Arwain ar waith comisiynu'r Tîm a chymryd trosolwg o waith ymgynghorwyr mewn cysylltiad â'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ac adnabod cyfleoedd i gomisiynu gwaith ar y cyd gydag awdurdodau eraill lle'n briodol,
- Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, arwain y broses o fonitro, adolygu a diwygio'r Cynllun.
- Arwain y gwaith o baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (ar ôl ei fabwysiadu).
- Arwain ar y gwaith o weithredu'r holl weithdrefnau sydd yn bwydo i mewn i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Mon) mewn partneriaeth gydag Ynys Mon, er mwyn sicrhau fod Adroddiad Monitro Blynyddol ar y cyd (1 AMB) yn cael ei baratoi yn flynyddol hyd at mabwysiadu'r Cynllun newydd, yn unol a'r gofynion statudol.
- Yr uchod i gynnwys arwain ar y gwaith o fonitro'r Canllawiau Cynllunio Atodol ac hefyd y broses o baratoi unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig / newydd i gefnogi polisïau'r Cynllun Lleol ar y Cyd cyfredol.



## PRIF DDYLETSWYDDAU (parhad)

- Cydweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cynllunio ac arwain ar y gwaith o roi cyngor polisi arbenigol ar gynigion, ceisiadau cynllunio ac apeliadau cynllunio a gorfodaeth, gan gynnwys rhoi tystiolaeth, yn ogystal ac arwain ar sicrhau mewnbwn y Gwasanaeth Cynllunio, i'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ac unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol.
- Arwain a gweithredu ar drefniadau gwaith cyson i ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar faterion polisi cynllunio i Adrannau / Gwasanaethau Gwynedd, Aelodau Etholedig a chwsmeriaid eraill y Gwasanaeth.
- Arwain ar ddarparu ymateb ar ran Gwynedd i ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill perthnasol.
- Arwain a chydlynu mewnbwn Gwynedd i ddyletswyddau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (Gogledd Cymru) mewn cysylltiad a'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Strategol, i geisio sicrhau fod y Cynllun yn cwrdd a blaenoriaethau ac anghenion Gwynedd.
- Arwain ar y gwaith o ddatblygu, paratoi, monitro ac adolygu Cynllun Rheolaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), a hyrwyddo polisïau a gweithrediadau i hybu, gwarchod a gwella'r AHNE.
- Arwain ar y gwaith dydd i ddydd yn y maes cynllunio mwynau a gwastraff, sydd yn cynnwys mewnbwn arbenigol ar faterion polisi cynllunio yn ymwneud a mwynau a gwastraff yn y Cynllun Datblygu Lleol, mewnbwn i strategaethau rhanbarthol a chenedlaethol, delio gyda ceisiadau cynllunio perthnasol, gwaith monitro a gorfodaeth, cynnig cyngor cynllunio ac apeliadau cynllunio / gorfodaeth – gyda hyn fel rhan o'r Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru.
- Arwain ar waith o baratoi a chyflwyno adroddiadau i'r Cabinet, Tîm Arweinyddiaeth, Cyngor Llawn, ac unrhyw Bwyllgor, Is-bwyllgor, Panel neu Fforwm, sydd yn gysylltiedig a dyletswyddau'r Tîm.
- Arwain ar brosiectau a gwaith ymchwil sydd yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor (e.e. Ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr) ac arwain / cynrychioli Gwynedd ar dimau prosiect a chyfarfodydd sirol, traws-sirol, rhanbarthol a chenedlaethol, sydd yn cyffwrdd â maes gwaith a dyletswyddau y Tîm.
- Rheoli a chydlynu rhaglenni gwaith a chyllidebau'r Tîm.
- Arwain y gwaith o gyfrannu at ddatblygu a gweithredu amcanion a pholisïau mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol y Cyngor.
- Arwain y gwaith o gyfrannu at dimau prosiect trawsadrannol a thraws sirol er mwyn cyfrannu at y gwaith o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol, gwaith polisi cynllunio cysylltiedig a dyletswyddau eraill y Gwasanaeth.
- Dirprwyo ar ran y Rheolwr Polisi Cynllunio ar faterion perthnasol i'r Gwasanaeth.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Polisi Cynllunio i sicrhau fod dyletswyddau'r Gwasanaeth yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
- Cyfrifoldeb proffesiynol dros fonitro datblygiad a pherfformiad staff y Tîm ac i baratoi a gweithredu rhaglen hyfforddiant.

## PRIF DDYLETSWYDDAU (parhad)

- Monitro perfformiad y Tîm a chyfrannu tuag rheoli perfformiad y Gwasanaeth yn unol a'r trefniadau corfforaethol y Cyngor.
- Cynorthwyo'r Tîm i sefydlu egwyddorion gweithredu gan ystyried deddfau perthnasol (e.e. Iechyd a Diogelwch, Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Diogelu Data) a sicrhau eu bod yn cadw atynt.
- Cyfrifoldeb am hunan ddatblygiad.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor.
- Gweithredu o fewn polisïau'r Cyngor yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data.
- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cyngor yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon ac annog eraill i weithredu'n gadarnhaol tuag at leihau ôl-troed carbon y Cyngor.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall cyfatebol a rhesymol sy'n cyd-fynd â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.
- Cyfrifoldeb i adrodd am bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gamdrin.

## **AMGYLCHIADAU ARBENNIG** (e.e. angen i weithio oriau anghymdeithasol, trefniadau gwaith arbennig a.y.y.b.)

- Cyfarfodydd sydd tu allan i'r oriau gwaith arferol yn achlysurol.



# Manylion Person

**Nodweddion Personol**
**Hanfodol:**

- Personoliaeth groesawus.
- Llygad am fanylder a chywirdeb.
- Gonestrwydd, hunan hyder, pendant a hyblyg.
- Gallu i dderbyn cyfrifoldebau ac i gyfathrebu'n effeithiol.
- Gallu i weithio o dan bwysau ac fel rhan o dîm.
- Y gallu i ysbrydoli a rheoli staff yn effeithiol
- Ymroddedig i gyflwyno gwasanaeth da i'r cwsmer ac wastad yn edrych am ffyrdd i wella gwasanaeth
- Yn unigolyn sydd yn cyfleu brwdfrydedd ynglŷn a'r gwaith
- Perchen ar drwydded yrru lan a dilys ynghyd a defnydd o gar.

**Cymwysterau a Hyfforddiant Perthnasol**
**Hanfodol:**

- Gradd neu gymhwyster cyffelyb mewn Cynllunio Gwlad a Thref neu mewn pwnc arbenigol perthnasol i faes gwaith y Gwasanaeth.

**Dymunol:**

- Cymhwyster ôl-radd mewn pwnc perthnasol
- Aelodaeth o'r RTPI neu RIBA neu o gymdeithas neu gorff proffesiynol arall perthnasol.



# Manylion Person (parhad)

**Profiad Perthnasol**
**Hanfodol:**

- Gweithio am o leiaf 5 mlynedd yn y maes polisi cynllunio ac arwain ar waith yn y broses o baratoi a gweithredu Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol
- Paratoi tystiolaeth a chymryd rhan mewn archwiliad cyhoeddus ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol
- Darparu briffiau a chomisiynu gwaith gan ymgynghorwyr
- Paratoi a chyflwyno adroddiadau i bwyllgorau a gweithgorau
- Profiad o reoli staff
- Profiad o weithio i amserlenni tynn ac o dan bwysau.
- Profiad o gydweithio gyda swyddogion ac Aelodau Etholedig ar pob lefel.

**Dymunol:**

- Cyflwyno tystiolaeth mewn archwiliad cyhoeddus ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol
- Arwain a chyfrannu at welliannau / newidiadau yn nhrefniadau a phrosesau gwaith yn y maes polisi cynllunio.
- Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru, cynghorau, asiantaethau a chyrff eraill
- Arwain ar a chyfrannu at ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus gan gyrff perthnasol ar faterion sydd yn berthnasol i gynllunio
- Gweithio mewn meysydd cynllunio eraill megis Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth
- Gweithio mewn Llywodraeth Leol
- Rheoli cyllid
- Cydweithio gyda partneriaid ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol
- Profiad o gyfrannu at y broses o fonitro a rheoli perfformiad.

**Sgiliau a Gwybodaeth**
**Hanfodol:**

- Gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am Ddeddfau Cynllunio, Deddfau Amgylcheddol, Rheoliadau a pholisïau perthnasol.
- Dealltwriaeth drylwyr o brosesau gwaith yn y maes Polisi Cynllunio ac yn benodol y broses o baratoi a gweithredu Cynllunio Datblygu Lleol
- Y gallu i ddehongli polisïau a chanllawiau cynllunio (lleol a chenedlaethol) yn eglur a chadarn a rhoi arweiniad polisi ar faterion rheolaeth datblygu a gorfodaeth
- Sgiliau cyfathrebu cryf yn llafar ac yn ysgrifenedig
- Sgiliau perthnasol ar gyfer paratoi a chyflwyno adroddiadau a'r gallu i gydweithio'n effeithiol a phobl, asiantaethau a chyrff allanol
- Dealltwriaeth o faterion cynllunio trefol a gwledig
- Dealltwriaeth o drefniadau gwaith Llywodraeth Leol
- Gallu i ddefnyddio pecynnau cyfrifiadurol.

**Dymunol:**

- Dealltwriaeth o brif amcan dynodiad yr AHNE a ròl y Cynllun Rheoli AHNE
- Dealltwriaeth o faterion cynllunio mwynau a gwastraff
- Gwybodaeth am yr ardal a'r ymroddiad i warchod a gwella'r amgylchedd trefol a gwledig.
- Dealltwriaeth am becynnau cyfrifiadurol amrywiol eraill.

# Anghenion Ieithyddol

## Gwrando a Siarad - Lefel Uwch

Gallu dilyn sgwrs neu drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar lefel broffesiynol a thrafod pynciau cyffredinol bob dydd yn y maes er mwyn cyflwyno gwybodaeth a mynegi barn. Gallu darparu cyflwyniad wedi'i baratoi o flaen llaw ac ymateb i unrhyw sylwadau a chwestiynau arno drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

## Darllen a Deall - Lefel Uwch

Gallu deall Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig safonol, ffurfiol ac anffurfiol. Medru casglu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cyflawni'r swydd.

## Ysgrifennu - Lefel Uwch

Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig gyda hyder ar ffurf llythyr, adroddiad mwy manwl a thechnegol ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. (Mae'n bosib cael cymorth i wirio'r iaith)

# Proses Ymgeisio

I ymgeisio am y swydd, ewch i **www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi**

Gofynnnwn i chi adolygu y Swydd Ddisgrifiad a Manylion Person, a chwblhau eich cais yn unol â'r gofynion.

Ceisiadau i'w cyflwyno ddim hwyrach na 10yb ar ddydd Iau, 30 Ebrill 2026 gyda chyfweliadau i'w cynnal ar ddydd Mercher, 6 Mai 2026.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses, cysylltwch â DesgAdnoddauDynol@gwynedd.llyw.cymru



www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi